GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(PARK CRESCENT A ROMILLY ROAD, Y BARRI)
(CAU FFORDD) (DROS DRO) 2021

Hysbysir trwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Adran 14 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogi eraill, yn bwriadu, mewn dim llai na saith diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, gwneud Gorchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr atodlenni isod:-

ATODLEN 1

Caiff y Gorchmynion Traffig Parhaol canlynol eu hatal, yn rhannol, tra bydd y Gorchymyn Traffig Dros Dro hwn ar waith:
Gorchymyn Cyngor Sir De Morgannwg (Strydoedd Oddi Wrth Park Crescent, Y Barri (Un Ffordd) 1991
Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 2

Ni fydd unrhyw berson yn gyrru neu'n gadael i gerbyd deithio yn y lleoliadau a nodir yn Atodlen 3 isod.

ATODLEN 3

Lleoliad 1:	**Bydd Park Crescent, Y Barri** o'r gyffordd â Jenner Road i'r gyffordd â Porthkerry Road **ar gau i draffig sy'n teithio tua'r gogledd**
Lleoliad 2:	**Bydd Romilly Road, Y Barri** o'r gyffordd â Porthkerry Road i'r gyffordd â Park Crescent **ar gau i draffig sy'n teithio tua'r gogledd**
Lleoliad 3	**Kathleen Street, Bell Street, Vale Street, Y Barri - caiff cyfeiriad y System Unffordd i Draffig ei wrthdroi** ac ni chaniateir i gerbydau deithio ar hyd Park Crescent.
Rheswm:	Galluogi Prif Waith Nwy i wneud gwaith ar y brif garthffos.
Hyd:	Rhwng 7.00am ddydd Llun 11 Hydref 2021 a 6.00pm ddydd Gwener 10 Rhagfyr 2021 neu hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau pa un bynnag yw'r cynharaf.
Llwybr Arall:	Bydd gwyriadau lleol ag arwyddion ar waith.
DS:	Bydd mynediad i gerddwyr trwy'r amser.

Dyddiad: 24 Medi 2021.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.